# **CRYNODEB CYFARFOD**

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Mawrth 12fed 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc.

Presennol: Jean Roberts (cadeiryddes), Arwel Davies, Geraint Jones, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Huw Charles, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Chwefror 13eg 2024) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant **- Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r ceisiadau ariannol.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Cynllun Bioamrywiaeth.
Cytunwyd i gyfrannu'r £50 o'r gyllideb i Garn Bach Tryweryn cael plannu coed afalau yn ei safle newydd.

b) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

## iv) Gohebiaeth

a) Amrywiol.
i) Swyddfa'r Cabinet - Cynllun Portread Ei Fawrhydi y Brenin.
ii) Cyfeillion Llŷn - Cynllun Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol – **cytunwyd i gydweithio ar unrhyw gynllun a fyddai yn cael ei greu ar gyfer Penllyn.**
iii) Papur newydd Y Cyfnod -_Ail lansio'r papur wythnosol. **Cytunwyd i anfon y cofnodion misol i'r papur.**
iv) Cornerstone – cyfarfod i drafod cynlluniau ar gyfer y rhwydwaith gwledig, Ebrill 10fed.
v) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Ymgynghoriad trafnidiaeth gymunedol, gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus 14/03/24.

## v) Ceisiadau Cynllunio.

**Ni chyflwynwyd unrhyw gais.**

**vi) Materion Ariannol**

a) Adroddiad Ariannol i ddiwedd Chwefror (monitro derbyniadau a thaliadau) – **Cymeradwywyd.**

b) Llywodraeth Cymru – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
**Cytunwyd i ddilyn y canllawiau yn yr adroddiad.**

c) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu –**
**Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth), CTHEM (TWE), Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth), Neuadd Maesywaen (Llogi), Neuadd Parc (Llogi) a Garn Bach Tryweryn (Cynllun Bioamrywiaeth).**

ch) Ceisiadau ariannol.
**Cytunwyd i gyfrannau:-**

| | |
|---|---|
| **1) Neuadd Y Parc** | **£150 (Euros Puw yn datgan buddiant)** |
| **2) Neuadd Maesywaen** | **£150** |
| **3) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn** | **£150** |
| **4) Ysgol Bro Tryweryn** | **£150** |
| **5) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn** | **£75** |
| **6) Sioe Ardal Maesywaen** | **£50 (Rhys Jones yn datgan buddiant)** |
| **7) CFFI Meirionnydd** | **£125** |
| **8) Eisteddfod Urdd Cylch Meirionnydd** | **£25** |
| **9) Cantref** | **£25** |
| **10) Ambiwlans Awyr Cymru** | **£50** |

| | |
|---|---|
| 11) Tŷ'r Eos | £50 |
| 12) Tŷ Gobaith | £25 |
| 13) Macmillan | £25 |
| 14) Pwyllgor Chwaraeon Parc | £50 |
| 15) Llen y Llannau | £25 |
| 16) Theatr Derek Williams | £50 |
| 17) Marie Curie | £25 |

**vii) Materion lleol.**
**a) Eglurodd Jean Roberts ei ddymuniad i ymddeol o'r Cyngor. Gan nad oedd posib cael perswad arni i ail ystyried diolchwyd iddi am ei ymroddiad i'r Cyngor dros y blynyddoedd. Gofynnwyd i'r clerc hysbysu Cyngor Gwynedd a chymryd y camau priodol ar gyfer ethol aelod newydd.**

**b) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MAI 14eg YN NEUADD MAESYWAEN.**